Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

29 Ionawr 2024

At: Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru

Annwyl Ddirprwy Weinidog,

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru yn gwerthfawrogi'r cymorth ariannol y mae ein haelod-amgueddfeydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru sydd wedi sicrhau eu bod wedi gallu darparu gwasanaethau allweddol hygyrch i gymunedau ar hyd a lled Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod eich bod chi a'ch swyddogion yn gorfod gwneud penderfyniadau cyllidebol anodd ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ar ran ein haelodau rydym yn eich annog i ystyried sefyllfa anodd amgueddfeydd lleol wrth benderfynu sut fydd toriadau yn y gyllideb yn disgyn. Gofynnwn i chi hefyd nodi rôl allweddol Amgueddfa Cymru o ran darparu gwasanaethau i gymunedau ac amgueddfeydd lleol ar hyd a lled Cymru.

Mae amgueddfeydd lleol yn gofalu am 1.2 miliwn a mwy o arteffactau sy'n adrodd hanesion niferus cymunedau bywiog ac amrywiol Cymru. Mae angen i amgueddfeydd ofalu am y gwrthrychau sydd ganddynt eisoes a sicrhau eu bod yn tyfu ac yn coleddu casgliadau newydd i sicrhau bod y cymunedau amrywiol hynny yn cael eu cynrychioli ar lefel leol. Maent yn gwneud hyn gyda chyn lleied â 250 o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cefnogi dros 1000 o wirfoddolwyr. Mae amgueddfeydd hefyd yn gwneud cyfraniad economaidd gwerthfawr at gydnerthedd cymunedau. Maent yn dangos ysbryd entrepreneuraidd wrth greu ffrydiau incwm newydd ac yn ysgogi cymorth gan ystod eang o gyllidwyr cyhoeddus ac elusennol cenedlaethol a lleol. Gall amgueddfeydd fod yn gatalyddion ar gyfer creu cymunedau cynhwysol. Maent yn creu arddangosfeydd, gweithgareddau a digwyddiadau gyda grwpiau sydd wedi'u heithrio yn draddodiadol a gallant helpu pobl i weld eu straeon fel rhan o hunaniaeth Cymru. Mae'r amgueddfeydd yng Nghymru yn cyflawni ystod drawiadol o wasanaethau dysgu anffurfiol a ffurfiol i'w cymunedau.

Fodd bynnag, bydd toriadau sylweddol i grantiau gan Lywodraeth Cymru yn rhoi llawer o'r gweithgareddau hyn mewn perygl ac yn lleihau'r cyfleoedd i ddenu arian ychwanegol i gymunedau. Mae pob grant a ddosberthir gennym ar eich rhan yn ategu nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol eisoes yn wynebu toriadau uniongyrchol yn y gyllideb ymhlith cystadleuaeth gref am gyllid gyda gwasanaethau eraill. Mae amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a gwirfoddolwyr yng Nghymru, sy'n cyfrif am hanner yr amgueddfeydd lleol, yn dibynnu'n helaeth ar awdurdodau lleol am gymorth ariannol a phroffesiynol. Eu pryder yw, heb y cyfryw gymorth, y gallent wynebu cau neu golli mynediad at ffynonellau eraill o grant. Yn ôl arolwg Sbotolau 2022 Llywodraeth Cymru o amgueddfeydd, mae 75% o amgueddfeydd yn dibynnu ar gymorth awdurdodau lleol.

Mae grantiau Llywodraeth Cymru i amgueddfeydd lleol yn gyfran gymharol fach o'ch cyfrifoldeb cyllidebol cyffredinol. Os caiff y rhain eu lleihau hefyd, bydd yn rhaid i amgueddfeydd ymdrin â thoriadau gan ddau gyllidwr allweddol ar yr un pryd. Mae'r Ffederasiwn yn wirioneddol bryderus y gallai amgueddfeydd, sydd eisoes yn ei chael yn anodd gwella o effeithiau'r pandemig a'r argyfyngau ariannol parhaus, gael eu gorfodi i gau, a hynny ar draul eu cymunedau a'r casgliadau hanesyddol.

Mae'r Ffederasiwn wedi bod yn falch o weithio mewn partneriaeth â chi a'ch swyddogion yn y gorffennol i ddosbarthu cyllid wedi'i dargedu y mae mawr ei angen i amgueddfeydd lleol, sy'n sicrhau y gall amgueddfeydd ddiwallu anghenion ac amcanion cymunedol, ac edrychwn ymlaen at barhau â'r bartneriaeth hon.

Noder mai llythyr agored yw hwn y byddwn yn ei rannu gyda'n haelodau drwy ein gwefan, a gobeithiwn allu rhannu eich ateb.

Chris Delaney
Swyddog Datblygu, ar ran y pwyllgor
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yw'r corff strategol annibynnol ar gyfer amgueddfeydd ac orielau celf yng Nghymru. Rydym yn eiriol dros y safonau uchaf o ran darpariaeth amgueddfeydd ledled Cymru.

Negeseuon Allweddol

1. Mae amgueddfeydd yn grymuso pobl trwy ddysgu, cyfranogiad ac ysbrydoliaeth
2. Mae amgueddfeydd a'u casgliadau yn cryfhau hunaniaeth a lles cymunedol
3. Mae amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad economaidd sylweddol drwy dwristiaeth ac adfywio

Data Sampl Sbotolau 2022

- straeon Cymru
- economïau lleol
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- sefydliadau dysgu cymunedol